Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Animal and Plant Health Agency
Service/team
First address line
Second address line
Town/city
Postcode

T +44 xxx xxxx xxxx
F +44 xxx xxxx xxxx

www.gov.uk/apha

(Insert Recipients Name and Address)

Annwyl Gludwr

**Cyngor Ar Gludo Defaid Sydd Newydd Eu Cneifio Mewn Tywydd Oer**

**Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006**
**Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007**
**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Yr Alban) 2006**
**Lles Anifeiliaid Yn Ystod Cludo - Rheoliad Cyngor (Ce) Rhif 1/2005**

**Defaid sydd Newydd gael eu Cneifio**
1. Mae tymheredd isel yn fygythiad i les anifeiliaid wrth eu cludo ac mae'r amodau hyn yn bosibilrwydd real iawn dros y gaeaf. Gall methu ag ystyried tymheredd oer i ystyriaeth wrth drefnu teithiau, yn benodol, achosi poen diangen i ddefaid sydd newydd gael eu cneifio. Mae hyn yn gymwys i'r cyfnod cyn llwytho, llwytho a dadlwytho yn ogystal ag unrhyw ran arall o'r daith.

2. Yr **unig** adeg y dylid mynd â defaid sydd newydd gael eu cneifio ar unrhyw daith, gan gynnwys eu hallforio, yw'r cyfnod rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth:

- os oes ganddynt dyfiant edefyn o **7.0mm** o leiaf (naill ai ganiatau aildyfu neu gneifio â chrib hir addas), a
- os **nad** yw'r defaid wedi'u cneifio llai na 24 awr cyn cychwyn y daith.

3. Hoffwn dynnu'ch sylw at y ffaith ei bod yn drosedd o dan ddeddfwriaeth lles anifeiliaid[1] i gludo anifeiliaid mewn ffordd sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi, anaf neu boen diangen. Gall cludo defaid sydd newydd gael eu cneifio mewn tymheredd isel syrthio i'r categori hwn ac, o'u harchwilio, gall swyddogion gorfodi Awdurdod Lleol, neu staff yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), atal neu ymyrryd mewn teithiau o'r fath gyda'r posibilrwydd o gymryd camau pellach.

**Cynllunio wrth Gefn**
4. Mae APHA yn asesu ac yn cymeradwyo Cofnodion Taith gan gadarnhau eu bod yn realistig a'u bod yn cydymffurfio â gofynion Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1/2005, os dilynir hwy. Fodd bynnag, ni allwn warantu y bydd ffyrdd ar agor/llongau fferi yn hwylio ac ati yn ystod cyfnodau lle ceir amodau tywydd oer eithafol a hir ac mae'n rhaid i gynlluniau wrth gefn cludwyr amlinellu pa gamau a gymerir os amherir ar y daith yn y fath fodd. **Cyfrifoldeb y cludwr yw sicrhau bod y daith yn bosibl ac ni ddylech ddechrau'r daith os wyddoch am unrhyw reswm i amau hyn.**

5. Mae'n anochel y bydd eira a thymheredd rhewbwynt yn tarfu ar rwydweithiau trafnidiaeth ym Mhrydain Fawr ac yn Ewrop hefyd o bosibl. Yn ystod cyfnodau o dywydd oer iawn mae'n hynod

[1] Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006, Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007, Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Cludo) (Yr Alban) 2006

bwysig bod cludwyr yn edrych i weld beth yw'r amodau ar hyd y llwybr y bwriedir ei ddilyn cyn cychwyn ar y daith. Rydym yn cynghori'n gryf eich bod yn cysylltu â'r cyrchfan a ddylai darparu gwybodaeth leol, ac, os bydd eich taith yn dibynnu ar ddull arall o deithio, eich bod yn cysylltu â'r cwmni fferi, trenau neu awyr er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch unrhyw oedi posibl i wasanaethau cyn cychwyn ar y daith.

Gall y dolenni canlynol fod yn ddefnyddiol hefyd:

http://www.metoffice.gov.uk/public/weather/warnings/?regionName=uk

http://www.highways.gov.uk/traffic/traffic.aspx

6. Y cludwr sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau nad yw unrhyw amodau tywydd andwyol yn effeithio ar effeithiolrwydd cyfarpar (e.e. bwydo ac yfed) sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 1/2005. Amlinellir y gofynion yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/193680/pb13550-wato-guidance.pdf

7. Os bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio, bydd swyddogion gorfodi yn cymryd y camau priodol a all gynnwys ymyrryd yn y daith nes i'r sefyllfa gael ei datrys.

8. Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon i'r Comisiwn Ewropeaidd a'r Awdurdodau Cymwys mewn Aelod-wladwriaethau eraill sydd, fel ni, â phwerau i ymyrryd mewn teithiau a chymryd camau gorfodi os caiff lles anifeiliaid ei beryglu, neu os byddai hynny'n debygol, wrth eu cludo.

9. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y llythyr hwn cysylltwch â Llinell Gymorth Lles wrth Gludo (WIT) ar Ffôn: 0345 603 8395 (opsiwn 4). Mae'r llinellau ar agor rhwng 08:30 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener (mae peiriant ateb ar gael fel arall), codir y gyfradd leol am alwadau. Neu ebostiwch: wit@apha.gov.uk.

Yn gywir

Lles yn y Tîm Trafnidiaeth
Canolfan Masnach Ryngwladol – Carlisle
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion